



ADRODDIADAU ARHOLWYR

**LLWYBRAU MYNEDIAD
YR IAITH AR WAITH**

HAF 2019

LLWYBRAU MYNEDIAD

YR IAITH AR WAITH

Haf 2019

Sylwadau cyffredinol

Eleni, cyflwynwyd gwaith 2,261 o ymgeiswyr o 9 canolfan (7 coleg a 2 ysgol), cynnydd bach ar nifer yr ymgeiswyr y llynedd. Mae'n werth nodi bod 2 ganolfan (1 coleg ac 1 ysgol) wedi cyflwyno ymgeiswyr am y tro cyntaf,

Roedd ymgeiswyr iaith ar Waith yn dilyn cyrsiau mewn ystod eang o feysydd galwedigaethol/sectorau yn cynnwys gofal plant, iechyd a gofal cymdeithasol, arlwyfaeth, manwerthu, gweinyddiaeth a busnes, gwasanaethau cyhoeddus, trin gwallt a harddwch, peirianeg, crefftiau adeiladu, celfyddydau perfformio, chwaraeon, celf a dylunio, rheoli cefn gwlad, amaeth a garddwriaeth. Mewn dwy ganolfan roedd rhai o'r ymgeiswyr yn dilyn cwrs Mynediad i Addysg Uwch neu Tystysgrif Ôl-raddedig mewn Addysg. Mae'r cynnydd yn yr amrywiaeth o feysydd galwedigaethol yn awgrymu bod y canolfannau yn gynyddol yn rhoi cyfle i'r ymgeiswyr ddatblygu sgiliau ar gyfer darparu gwasanaeth i gwsmeriaid yn Gymraeg yn y byd gwaith a'r gymdeithas ehangach maes o law, beth bynnag fo'u maes galwedigaethol.

Dangosodd sylwadau rhai tiwtoriaid nad oedd rhai o'r ymgeiswyr wedi derbyn addysg Gymraeg a bod ambell un wedi dod at y Gymraeg ar ôl gadael yr ysgol. Ymddengys fod rhai ymgeiswyr newydd ddychwelyd at addysg/hyfforddiant.

Nifer bach iawn o ymgeiswyr oedd ar gyfer yr unedau llafar (Rhoi gwybodaeth a Rhyngweithio'n effeithiol), 27 ar lefel 2, a 2 ar lefel 3. Yn wir, bu gostyngiad yn nifer yr ymgeiswyr o flwyddyn i flwyddyn ers rhai blynyddoedd. Diau fod amryfal resymau am hynny, eithr ymddengys fod cyfyngu ar yr amser sydd ar gael ar gyfer y cymhwyster iaith ar Waith yn rhaglenni astudiaethau galwedigaethol yr ymgeiswyr yn un o'r rhesymau am hynny.

Ymgeiswyr ar gyfer yr uned Darllen ac Ysgrifennu oedd y rhelyw o'r ymgeiswyr felly, gyda 1887 ar lefel Mynediad 3, 320 ar lefel 1, 25 ar lefel 2, ac 1 yn unig ar lefel 3.

Yn gyffredinol, roedd safon y gwaith a gyflwynwyd eleni, o ran ei gynnwys a'r cyflwyniad ohono, yn ddigon tebyg i'r hyn a welwyd y llynedd. Ar draws y lefelau, cafwyd gwaith i'w ganmol gan nifer da o'r ymgeiswyr. Gydag ychwaneg o ymdrech a chefnogaeth, mae'n deg awgrymu y gallai rhai o'r goreuon ymdopi â gwaith ar y lefel nesaf. Ceir rhagor o fanylion yn yr adran sy'n dilyn isod.

Mae'n briodol nodi bod gwaith yr ymgeiswyr wedi'i farcio'n drylwyr, gyda sylwadau /arweiniad wedi'u rhoi ar y tasgau at sylw'r ymgeisydd. Roedd tystiolaeth glir bod gwirio mewnol wedi digwydd yn y canolfannau. Yn gyffredinol, roedd y gwaith gweinyddol cysylltiedig â gwaith yr ymgeiswyr (ffurflenni CBAC) wedi'i gwblhau'n briodol, ond mae lle i bwysleisio bod angen i rai tiwtoriaid/canolfannau fod yn fwy gofalus a manwl gyda'r elfen hon. Yn bur aml, roedd ymgeiswyr wedi cyflwyno gwaith teipiedig glân a oedd yn ymgorffori cywiriadau'r tiwtor a'i gefnogi gyda'r drafft yn cynnwys cywiriadau/awgrymiadau'r tiwtor. Roedd hyn i'w groesawu'n fawr.

Sylwadau ar unedau unigol

Unedau Rhoi gwybodaeth ar lafar a Rhyngweithio'n effeithiol (lefel 2 a 3)

Yn gyffredinol, roedd safon y recordio'n dderbyniol gyda llais yr ymgeisydd a'r tiwtor (wrth chwarae rôl) yn glir a dealladwy. Roedd y sefyllfaoedd a osodwyd yn y ddwy uned yn gwbl berthnasol i ddarparu gwasanaeth i gwsmeriaid ar lefel 2 a lefel 3. Sefyllfaoedd naturiol a real.

Bu gwranddo ar gyfraniadau'r ymgeiswyr yn y ddwy uned yn brofiad difyr – amrywiaeth o sefyllfaoedd, oll yn berthnasol i feysydd galwedigaethol yr ymgeiswyr. Siaradai nifer o'r ymgeiswyr yn rhwydd a naturiol a llwyddent i ymateb i gais y cwsmer am wybodaeth, rhyngweithio'n effeithiol, holi'n bwrpasol a mynegi barn yn ôl y gofyn ac ymateb yn hyderus i ambell gwsmer blin. Awgrymai cyfraniad ambell ymgeisydd y gallai ymdopi â delio gyda chwsmeriaid yn y gweithle o ddydd i ddydd. Defnyddient amrywiaeth dda o batrymau brawddegol, a geirfa briodol yn cynnwys rhai termau technegol. Gallent ddisgrifio'n fanwl a chywir. Ar y llaw arall câi ambell un anhawster gydag ynganu rhai geiriau cyfarwydd ac anghyfarwydd. Dichon nad oedd yr ymgeiswyr hyn yn gyfarwydd â defnyddio'r Gymraeg yn rheolaidd mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd nac yn meddu ar adnoddau iaith digonol i gwrdd â gofynion y lefel.

Uned Darllen ac Ysgrifennu

Mynediad 3. Roedd y sbardunau a'r tasgau a osodwyd yn benodol ac yn briodol i'r lefel ac yn rhoi cyfle i ymgeiswyr gyflwyno tystiolaeth oedd yn cwrdd â'r MPA. Roeddent yn ymwneud â gwasanaeth cwsmer, ac yn amlach na pheidio yn bethnasol i faes galwedigaethol yr ymgeisydd. Cafwyd gwaith i'w ganmol gan nifer da o ymgeiswyr. Cyflwynodd yr ymgeiswyr hyn waith taclus a darllenadwy, gan ddangos gallu i ddedhol gwybodaeth a llunio cyfarwyddiadau i gynorthwyo'r cwsmer. Dichon y gallai rhai o'r goreuon fod wedi gallu ymdopi â gwaith ar y lefel nesaf. Ar y llaw arall, cafwyd gwaith digon anniben gan rai ymgeiswyr (lleiafrif bach, mae'n wir), roedd y gwaith yn aml yn wallus o ran iaith ac yn ymddangos yn brin o'r nifer gofynnol o eiriau.

Lefel 1. Fel uchod, roedd y tasgau yn briodol ar gyfer y lefel. Cyflwynodd nifer o'r ymgeiswyr waith graenus a chywir, gan ddangos eu bod yn gallu dedhol gwybodaeth a chroesgyfeirio o wahanol destunau i gynorthwyo'r cwsmer. Defnyddient amrywiaeth o frawddegau a chyfarwyddiadau. Gallai amryw o'r ymgeiswyr fynegi barn yn bendant a hyderus. Roedd eraill heb lwyddo i wneud hynny i'r un graddau.

Lefel 2. Gosodwyd tasgau addas i'r lefel gyda ffocws clir ar roi gwasanaeth i'r cwsmer. Roedd y rhelyw yn berthnasol i faes galwedigaethol yr ymgeisydd. Derbyniwyd peth gwaith diddorol iawn. Roedd yn bleser ei ddarllen. Roedd yn amlwg bod yr ymgeiswyr yn gyffyrddus yn cyflwyno gwaith yn Gymraeg a hwnnw mewn iaith naturiol, darllenadwy a phwrpasol. Gan ddefnyddio amrywiaeth o frawddegau a chyfarwyddiadau gallent arddangos gafael dda iawn ar gystrawen Gymraeg. Hefyd defnyddio ystod o eirfa addas a oedd yn gymwys i'r lefel ac i'r maes galwedigaethol. Gallai rhai fynegi barn yn hyderus, eithr y mae hon yn elfen sydd angen mwy o waith arni wrth baratoi ymgeiswyr ar gyfer y cymhwyster. Ymddangosai fel petai ambell ymgeisydd heb lwyrr gwblhau'r tasgau cyn eu cyflwyno – ôl brys ar y cyfan, atebion/brawddegau anghyflawn.

Lefel 3. Roedd y tasgau a osodwyd yn rhoi cyfle i'r ymgeisydd gywain/dedhol gwybodaeth, croesgyfeirio a thrawsieithu o destunau yn ymwneud â gwasanaeth cwsmer. Yn gyffredinol roedd yr ymgeisydd yn dangos gallu i lunio testun Cymraeg trefnus, gan gynnig barn a syniadau pwrpasol ar gyfer 'marchnata cynnyrch' ac ynglŷn â 'defnyddio'r iaith Gymraeg'. Ysgrifennai'n eithaf cywir gan ddefnyddio amrywiaeth o frawddegau, ymadroddion a geirfa addas i'r pwnc ac i'r lefel. Deunydd digon diddorol ar y cyfan.

Er nodi bod amryw o'r ymgeiswyr wedi cyflwyno gwaith da dros ben, roedd eraill heb fod cystal i'w gweld ymhob un o'r lefelau. Roedd amrywiaeth o fân wallau iaith cyffredin yn eu gwaith. Nid eir i fanylion ar y pwynt hwn yma. Mae'r disgwyliadau/gofynion ieithyddol ar gyfer pob lefel i'w gweld yn Taflen Iaith IAW (CBAC, 2012).

Crynodeb o brif bwyntiau

Awgrymir yma rai pwyntiau y byddai'n briodol rhoi sylw iddynt:

Parhau i sicrhau bod y darnau darllen a'r tasgau yn gwbl berthnasol i fater darparu gwasanaeth i gwsmeriaid a lle bo hynny'n briodol yn ymwneud â maes galwedigaethol yr ymgeisydd. Mae gofyn bod y tasgau yn rhoi cyfle i'r ymgeisydd ddangos ei fod yn gallu cwrdd â'r MPA ar gyfer y lefel benodol. Pwysig hefyd bod ymgeiswyr yn ysgrifennu digon i gwrdd â gofynion y dasg.

Sicrhau bod ymgeiswyr ar lefelau 1-3 yn gallu mynegi barn yn hyderus a lle bo gofyn am hynny rhoi tystiolaeth i gefnogi'r farn honno.

Unedau llafar – annog ymgeiswyr i ymarfer/defnyddio'u sgiliau Cymraeg yn y ganolfan a thu hwnt er cryfhau eu gallu i rhoi gwybodaeth ar lafar a rhyngweithio'n effeithiol. Ystyried sut y gall canolfannau roi cyfle i ragor o ymgeiswyr ymgymryd â'r ddwy uned yma, gan gofio bod cyflogwyr mewn sawl sector yn rhoi gwerth ar sgiliau siarad Cymraeg yn y gweithle. (Adroddiad Llywodraeth Cymru 2014)

Rhoi pwyslais ar ddileu gwallau cyffredin o waith ymgeiswyr i'w cynorthwyo i ysgrifennu'n gywir a rhoi gwedd mwy proffesiynol i'w gwaith.

Wrth gloi, diolchir i'r canolfannau am barhau i gefnogi'r cymhwyster gan roi cyfle i gynifer o ymgeiswyr ddatblygu sgiliau llafar ac ysgrifenedig at bwrpas rhoi gwasanaeth i gwsmeriaid yn Gymraeg.



CBAC
245 Rhodfa'r Gorllewin
Caerdydd CF5 2YX
Ffôn: 029 2026 5000
Ffacs: 029 2057 5994
E-bost: arholiadau@cbac.co.uk
gwefan: www.cbac.co.uk